# Cylchlythyr Llyfrgelloedd Conwy

ymlacio read dysgu explore darllen learn

***RHIFYN 2020 O SIALENS DDARLLEN YR HAF!***




## *Yn y Rhifyn Hwn:*

- ***Sialens Ddarllen yr Haf 2020***
- ***Ymweliadau Rhithiol***
- ***Llyfrau am Ddim Harper Collins***
- ***Comics RB Digidol***
- ***Pigo eich Pecyn***
- ***Beth i Gadw Llygad Amdano***
- ***Amrywiaeth Trwy Ddarllen***

## *YN EICH CROESAWU I SIALENS DDARLLEN DDIGIDOL YR HAF 2020!*

Thema eleni yw '**Sgwad Gwirion**', felly pwy sy'n teimlo'n wirion?

Cynhelir Sialens Ddarllen yr Haf bob blwyddyn i blant **4-11 oed**, er mwyn annog darllen a hwyl dros wyliau'r haf! Mae Llyfrgelloedd Conwy eisiau eich herio i ddarllen **6 llyfr** dros yr haf, a chofiwch mae **UNRHYW** lyfr neu gomic yn cyfrif.

Defnyddiwch ein gwasanaeth '**Ffonio a Chasglu**' i archebu llyfrau gwirion a'ch pecyn i gychwyn, neu chwiliwch am Borrowbox ac RBDigital i weld ein hadnoddau ar-lein hefyd! Ewch i cymru.summerreadingchallenge.org.uk i gael rhagor o wybodaeth!




## *FEDRWCH CHI DDOD O HYD I GYMERIADAU SGWAD GWIRION SY'N CUDDIO DRWY'R CYLCHLYTHYR?*



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio a darganfod**

**Conwy County, the right environment to live, work and discover**

## *Ymweliadau Rhithiol gan Staff y Llyfrgell i Wylio a Rhannu!*

**Ydych chi'n teimlo'n wirion?** Gwyliwch Shannon yn adrodd y stori mwyaf **GWIRION**, The Great Balloon Hullaballoo?




**Cliciwch yma i wylio!**

Mae **Harper Collins UK** wedi ymuno ag **Ymgyrch Ddarllen yr Haf** yr *Asiantaeth Ddarllen* ac maent yn cynnig 28 o'u e-lyfrau i blant **AM ADDIM i gael mynediad ar y pryd a di-derfyn**, rhwng rŵan a 31 Awst ar **Borrowbox**.

***Perffaith ar gyfer Sialens Ddarllen yr Haf!***













rb digital COMICS






## *Pigwch eich Pecyn!*

Defnyddiwch ein gwasanaeth Ffonio a Chasglu i bigo eich pecyn Sialens Ddarllen yr Haf, ynghyd â llyfrau gwirion er mwyn cychwyn arni...

Rhowch wybod i ni beth rydych chi'n hoffi ei ddarllen, a bydd y staff yn dewis eich llyfrau ac yn trefnu amser addas i chi alw draw i'ch llyfrgell leol i'w casglu.

☎ 01492 576139 **Dolen**: https://bit.ly/2BaBQPR



***PETHAU I GADW LLYGAD AMDANYNT...***

**Mae themâu wythnosol ar gyfer sialens eleni -**

- 20 Gorffennaf – Comics, Nofelau Graffig a Lluniau
- 27 Gorffennaf – Jôcs a
- Thriciau
- 3 Awst - Barddoniaeth
- 10 Awst – Nofelau ac Ysgrifennu Stori
- 17 Awst – Ffeithiol
- 24 Awst – Pobl ddrwg

## *Annog Amrywiaeth trwy Ddarllen!*

Mae Borrowbox wedi creu casgliad i helpu gwrandawyr ifanc i ddathlu amlddiwylliannaeth ac amrywiaeth, gan roi cipolwg unigryw ar ddiwylliannau gwahanol a ffyrdd o fyw! Mewn pryd ar gyfer sialens eleni...






















